

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) Crynodeb o'r Bil

Mai 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6515**
E-bost: **Paul.Worthington@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Crynodeb o'r Bil

Mai 2023

Awdur:
Paul Worthington



Ar 18 Ionawr 2023, **ysgrifennodd** y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Gweinidog IGC") at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w hysbysu ei bod yn bwriadu cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) er mwyn "galluogi cyflwyno trefn gaffael bwrpasol fydd yn berthnasol i wasanaethau iechyd GIG Cymru".

Cyflwynwyd **Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)** ("Bil CGI") i'r Senedd ar 13 Chwefror 2023. Bil fframwaith yw'r Bil. Nid yw'n cynnwys cyfraith sylwedd, ond mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau:

- 'Pŵer datgymhwyso' a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau Bil Caffael y DU, sydd ar ei daith drwy Senedd y DU ar hyn o bryd, ar ôl ei ddeddfu. Byddai'r Bil hwnnw, fel arall, yn gymwys i gaffael gwasanaethau iechyd.
- 'Pŵer creu' a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar wahân ar gyfer y gwasanaethau iechyd hyn yng Nghymru.

Cafodd y Bil ei gyfeirio at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer **gwaith craffu Cyfnod 1**. Cyn y ddadl Cyfnod 1, mae'r **Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil**, wrth dynnu sylw at nifer o faterion y dylai Aelodau roi sylw iddynt drwy gydol gwaith craffu ar y Bil a rheoliadau a chanllawiau a wneir oddi tano.

Mae **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** a **Phwyllgor Cyllid** y Senedd hefyd wedi craffu ar y Bil. Mae'r papur briffio hwn yn rhoi cefndir i'r Bil, yn crynhoi ei ddarpariaethau ac yn amlinellu gwaith y Senedd ar y Bil hyd yn hyn yng Nghyfnod 1 o'r broses ddeddfwriaethol, gan nodi barn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cynnwys

1. Y cefndir.....	1
2. Crynodeb o'r darpariaethau.....	1
3. Y broses graffu	2
4. Y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi.....	3
5. Y rhesymeg dros y Bil	5
6. Cynllunio cyfundrefn gaffael iechyd ar gyfer Cymru.....	6
7. Ymgysylltu ac ymgynghori.....	9
8. Cyd-destun polisi a deddfwriaethol ehangach	9
9. Dadansoddiadau pwyllgorau eraill y Senedd	10
10. Y camau nesaf.....	11

1. Y cefndir

Ar 18 Ionawr 2023, **ysgrifennodd** y Gweinidog IGC at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w hysbysu ei bod yn bwriadu cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) ("Bil CGI") er mwyn "galluogi cyflwyno trefn gaffael bwrpasol fydd yn berthnasol i wasanaethau iechyd GIG Cymru". Dywedodd y:

Bydd y Bil ac is-ddeddfwriaeth bosibl yn ceisio galluogi sefydliadau fel y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru i weithredu arferion caffael mwy hyblyg wrth gyrchu gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Er mwyn galluogi is-ddeddfwriaeth [i] gael ei chyflwyno cyn gynted â phosibl, bydd y Llywodraeth yn cynnig cyflymu'r amserlen ar gyfer y Bil a fydd yn ei alluogi i gyrraedd Cam 4 cyn toriad yr haf.

Cyflwynwyd **Bil CGI** wedi hynny ar 13 Chwefror 2023 gyda **Memorandwm Esboniadol** ("Memorandwm") cysylltiedig. At hynny, darparodd y Gweinidog IGC **ddatganiad o fwriad polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth**.

2. Crynodeb o'r darpariaethau

Mae'r Bil yn darparu pwerau mewn deddfwriaeth sylfaenol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth i gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd Cymru. Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, mae **Llywodraeth Cymru wedi datgan** y bydd yn "gweithio'n agos gyda GIG Cymru a rhanddeiliaid i sicrhau bod y darpariaethau'n berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur". Mae'r pwerau'n eang, yn galluogi Gweinidogion i wneud rheoliadau (ac wedyn eu diwygio neu eu disodli).

Yn gryno, mae darpariaethau'r Bil yn seiliedig ar y ddau bŵer a ganlyn:

- Adran 2: 'Pŵer datgymhwyso' a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau'r Bil Caffael (sydd **ar ei daith drwy Senedd y DU** ar hyn o bryd) a fyddai, fel arall, yn gymwys i gaffael gwasanaethau iechyd.
- Adran 3: 'Pŵer creu' a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar wahân ar gyfer y gwasanaethau iechyd hyn yng Nghymru.

Mae'r pŵer sylfaenol ar gyfer sefydlu cyfundrefn newydd wedi'i gynnwys yn adran 3 o'r Bil, sy'n mewnosod **adran newydd 10A** yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf GIG Cymru 2006"). Mae'r pŵer creu yn ddewisol, ond os caiff ei ddefnyddio, bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ar is-ddeddfwriaeth. Dan y weithdrefn hon, mae'n rhaid i'r rheoliadau drafft sicrhau

cytundeb y Senedd cyn y caniateir eu gwneud gan Weinidogion Cymru, ond nid oes cyfle i'r Aelodau gynnig gwelliannau i'r rheoliadau.

Mae adran newydd 10A hefyd yn nodi bod yn rhaid i reoliadau newydd a wneir gynnwys darpariaeth sy'n pennu camau i'w cymryd wrth ddilyn proses dendro gystadleuol ac mae'n rhaid iddynt hefyd wneud darpariaeth yn y broses gaffael ar gyfer sicrhau:

- Tryloywder.
- Tegwch.
- Y gellir gwirhau cydymffurfedd.
- Rheoli gwrthdaro buddiannau.

3. Y broses graffu

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar **24 Ionawr 2023** i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 28 Ebrill 2023. Yn ystod y chwe wythnos eistedd oedd ar gael, gwnaeth y Pwyllgor:

- Gyhoeddi **galwad am dystiolaeth ysgrifenedig**. Oherwydd yr amser cyfyngedig a oedd ar gael, roedd ein hymgyngoriad ar agor am ychydig llai na phedair wythnos.
- Cael **sesiwn frifio dechnegol breifat** gan swyddogion Llywodraeth Cymru.
- Clywed **tystiolaeth lafar gan gyrff iechyd**.
- Cynnal **trafodaeth anffurfiol breifat** ag awdurdodau lleol, darparwyr y trydydd sector a'r sector preifat, cynrychiolwyr gofal sylfaenol ac undebau.
- **Ysgrifennu at Lywodraeth y DU** i ofyn am ragor o wybodaeth am ei diwygiadau arfaethedig i'r broses o gaffael gwasanaethau iechyd yn Lloegr.
- Clywed **tystiolaeth lafar gan y Gweinidog IGC**. Er mwyn llywio'r sesiwn hon, adolygodd y Pwyllgor hefyd dystiolaeth lafar a roddwyd o'r blaen i'r **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** ("y Pwyllgor DCC") a'r Pwyllgor Cyllid, ac ysgrifennu at y Gweinidog IGC i ofyn am eglurder ar faterion penodol.
- **Ysgrifennu at gyrff iechyd** yng Nghymru i ofyn am ragor o wybodaeth. Cafodd a nododd y Pwyllgor yr ymatebion **yn ei gyfarfod ar 27 Ebrill**.

Barn y Pwyllgor

Mae adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Bil yn nodi ei bryderon am ddiffyg rhybudd cynharach ac:

At hynny, mae'n destun gofid bod yr amserlenni a gyflymwyd ar gyfer cynnal gwaith craffu ar [F]il Caffael y Gwasanaeth Iechyd wedi cyfyngu, o reidrwydd, ar ein dull o gynnal gwaith craffu ar y materion technegol a chymhleth hyn, ac wedi rhoi pwysau arnom ni a rhanddeiliaid yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Adleisiwyd pryderon tebyg yn yr adroddiadau ar y Bil gan y **Pwyllgor Cyllid** a'r **Pwyllgor DCC**.

4. Y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi

Bil Caffael Llywodraeth y DU

Prif sbardun Bil CGI yw cynigion Llywodraeth y DU i newid y ffordd y mae **cyrff cyhoeddus yn y DU yn caffael nwyddau a gwasanaethau**, yn enwedig newidiadau arfaethedig yn y gyfundrefn gaffael ar gyfer gwasanaethau iechyd yn Lloegr.

Ar hyn o bryd, darperir y prif fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu'r broses o gaffael gwasanaethau cyhoeddus gan Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ("Rheoliadau 2015"). Mae Rheoliadau 2015 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer 'cyfundrefn cyffyrddiad ysgafn' fel y'i gelwir, sy'n cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg penodol yng Nghymru a Lloegr nad ydynt yn ddarostyngedig i gyfundrefn gaffael lawn Rheoliadau 2015. Mae hyn wedi'i gynllunio i ganiatáu mwy o hyblygrwydd i awdurdodau contractio addasu gweithdrefn gaffael i ddiwallu eu hanghenion unigol, wrth gynnal tryloywder a thriniaeth gyfartal hefyd.

Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cyflwyno cyfundrefn gaffael newydd i ddisodli Rheoliadau 2015 drwy ei **Bil Caffael** sy'n dod i ddiwedd ei daith drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Ceisiodd Llywodraeth Cymru gynnwys awdurdodau contractio Cymru o fewn cwmpas y Bil Caffael, a gosododd gyfres o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd.

Mae **Memorandwm Bil CGI** yn nodi'r canlynol am y Bil Caffael:

- [Nid yw'n] cadw'r 'gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn' yn ei ffurf bresennol a bydd yn ceisio cyflwyno'r cysyniad o 'gontract cyffyrddiad ysgafn' sy'n elwa ar eithriadau i dendro cystadleuol llawn o dan brif ddarpariaethau'r Bil.

- Bydd... hefyd yn caniatáu dyfarnu'n uniongyrchol gontractau cyhoeddus ar gyfer cyflenwi gwasanaethau o ddewis defnyddwyr yn unol â gwasanaethau sydd wedi'u dynodi o dan y gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn.

Deddf Iechyd a Gofal 2022 a'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn cynnig newid y ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu caffael yn Lloegr. Mae adran 79 o **Ddeddf Iechyd a Gofal 2022** ("Deddf 2022") yn diwygio **Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006** ("Deddf GIG 2006") i ddarparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n rhoi rheolau newydd ar waith sy'n ymwneud â chaffael gwasanaethau gofal iechyd gan awdurdodau perthnasol diffiniedig.

Felly, mae adran 79 yn darparu'r 'pŵer creu' cyfatebol mewn perthynas â Lloegr y mae adran 3 o Fil CGI yn ceisio ei gyflwyno ar gyfer Cymru.

Cafodd Deddf 2022 y Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022, ond nid yw adran 79 wedi dod i rym eto. Fodd bynnag, mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU **wedi ymgynghori ar gynigion** i ddefnyddio'r pŵer i gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd: y Gyfundrefn Dethol Darparwyr ("PSR"). Nod y PSR yw symud i ffwrdd o'r amgylchedd tendro cystadleuol blaenorol tuag at system o fwy o gydweithio a phartneriaeth.

O ganlyniad, mae'r Bil Caffael yn cynnwys 'pŵer datgymhwyso' sy'n galluogi Gweinidog i ddatgymhwyso unrhyw ddarpariaeth yn y Bil Caffael pan fo darpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan Ddeddf GIG 2006 yn gymwys. Bydd hyn yn galluogi'r PSR i weithredu yn lle'r Bil Caffael ar gyfer caffael gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr.

Y cyd-destun deddfwriaethol yng Nghymru

Mae'r Gweinidog IGC wedi dweud yn gyson bod y diwygiadau PSR yn sbardun allweddol i Fil CGI, **ar y sail a ganlyn:**

Bydd y darpariaethau yn y Bil a'r rheoliadau yn y dyfodol yn hwyluso'r hyblygrwydd hwnnw, gan ddarparu mecanwaith cefnogol sy'n ceisio cynnal y tegwch, o ran caffael presennol, yng ngwasanaethau iechyd y GIG rhwng Cymru a Lloegr. Bydd hyn yn helpu i liniaru'r risg o effaith anffafriol ar GIG Cymru oherwydd gweithredu trefn gaffael wahanol gan y gwasanaeth iechyd yn Lloegr.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ("y Bil Partneriaeth Gymdeithasol") ym mis Mehefin 2022. Dywedodd y Gweinidog IGC wrth y Pwyllgor DCC ar **6 Mawrth 2023** fod y Bil

Partneriaeth Gymdeithasol yn nodi ffordd o weithio, ond bod Bil CGI yn gwneud darpariaeth ar gyfer newidiadau eithaf technegol o ran caffael a dywedodd y canlynol wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol **ar 30 Mawrth** “by the time we got there, our legal advice told us that we were out of scope, and so we couldn't be involved in that particular Bill”.

Mae tabl 1 yn **adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Fil CGI** (paragraff 22) yn crynhoi'r amserlenni ar gyfer datblygu deddfwriaeth, ac yn nodi pa gynigion sy'n effeithio ar Gymru yn unig, sy'n effeithio ar Loegr yn unig, ac sy'n effeithio ar Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

5. Y rhesymeg dros y Bil

Mewn tystiolaeth i'r **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 30 Mawrth 2023**, esboniodd y Gweinidog IGC fod rhywfaint o'r sail i Fil CGI yn canolbwyntio ar y canlynol:

What we have been advocating for a while is, perhaps, more collaborative working, making sure we've got high-quality services that are delivered efficiently, that are focused on patient outcomes, but making sure we also have the right checks and balances, which ensures that we spend the little money that we have efficiently on services.

At hynny, dywedodd y Gweinidog IGC fod rhanddeiliaid yn pryderu am wahaniaeth rheoliadol yn dilyn gweithredu'r PSR yn Lloegr. Felly, roedd angen y Bil er mwyn rhoi'r opsiwn i Lywodraeth Cymru benderfynu, pan fydd manylion y PSR wedi'u cadarnhau, a yw am gyflwyno trefniadau tebyg ar gyfer Cymru ai peidio.

Gofynnodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gyrff iechyd am risgiau posibl gwahaniaeth rheoliadol a daeth nifer o themâu i'r amlwg a nodir yn fanylach yn **adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Fil CGI**. Roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer sicrhau 'tegwch' rhwng Cymru a Lloegr o ran caffael, gyda rhywfaint o bryder am golli capasiti gwasanaethau arbenigol yng Nghymru os na fyddai fframweithiau caffael yn gyson, er y nododd ymateb un bwrdd iechyd ei bod yn anodd amcangyfrif maint posibl y risg.

Roedd **rhanddeiliaid eraill** hefyd yn gefnogol, ar y cyfan, i nodau'r Bil, yn enwedig o ran posibilrwydd galluogi mwy o hyblygrwydd lleol, cydgynhyrchu a chydweithio â darparwyr lleol, trydydd sector, annibynnol a llai. Ar yr un pryd, rhybuddiodd **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** y gellid defnyddio'r hyblygrwydd hwn hefyd i fynd ar drywydd agenda o allanoli a phreifateiddio.

6. Cynllunio cyfundrefn gaffael iechyd ar gyfer Cymru

Rhwystrau presennol a chyfleoedd posibl

Clywodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y rhwystrau a'r heriau a gyflwynir gan y trefniadau caffael presennol, a'r cyfleoedd i fynd i'r afael â'r rhain drwy gyfundrefn gaffael newydd. Roedd y canlynol ymhlith y rhwystrau a nodwyd:

- **Cymhlethdod tirwedd comisiynu iechyd a gofal cymdeithasol** yng Nghymru, gydag amrywiaeth o drefniadau a chyrrff caffael.
- **Cyllid tymor byr**, oedi cyn gwneud penderfyniadau cyllid, a gwaith cynllunio pontio annigonol, gyda'r ansicrwydd hwn yn effeithio ar sefydliadau.
- **Amrywiad arferion gweithio ar draws byrddau iechyd** mewn ffyrdd o weithio, gan gynnwys penderfyniadau amserol, tryloywder, cyfathrebu ac ymatebion i gostau cynyddol.
- **Anawsterau i sefydliadau llai wrth feithrin perthynas** gydag awdurdodau perthnasol, ac wrth gael eu trin fel partneriaid cyfartal, gyda **chyfleoedd coll** ar gyfer cydgynhyrchu gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth.
- **Mae rhywfaint o allanoli a chomisiynu** ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi arwain at **waith mwy ansicr** a thâl neu delerau ac amodau gwaeth.

Roedd y cyfleoedd a nodwyd yn cynnwys cyfleoedd i wneud y canlynol:

- Cynyddu **dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o drefniadau caffael**, mynd i'r afael â rhwystrau mynediad canfyddedig, a symleiddio prosesau caffael.
- Sicrhau bod y gyfundrefn newydd yn hwyluso **arloesedd, cydgynhyrchu a chydweithio** a'i bod yn helpu i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wella canlyniadau cleifion.
- Gwella gwerth am arian a chanlyniadau cleifion **drwy wella perthnasoedd gweithio a chydweithio** er mwyn datblygu gwasanaethau heb fod angen aildendro'n fynych (gydag amhariad a chostau cysylltiedig).
- **Defnyddio gwybodaeth a phrofiad** darparwyr presennol a newydd yn well, yn enwedig y rhai o'r trydydd sector.

Cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru

Mae'r Gweinidog IGC wedi nodi'n gyson na fydd yn pennu manylion cyfundrefn

gaffael newydd ar gyfer Cymru nes ei bod wedi ystyried manylion terfynol y PSR. **Ar 30 Mawrth 2023**, nododd y byddai'r pwerau ym Mil CGI yn cynnig y cyfle a'r gallu i gysoni os bydd awydd gwneud hynny.

Mewn **tystiolaeth lafar**, cydnabu'r Gweinidog IGC y rhwystrau presennol a nododd, pe bai'n cyflwyno cyfundrefn ar ffurf PSR ar gyfer Cymru, y byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i'r awdurdodau perthnasol benderfynu a ddylid adnewyddu contractau sy'n gweithio'n dda ac yn darparu gwerth am arian, dyfarnu contractau'n uniongyrchol pan fo'n briodol neu ddefnyddio tendrau cystadleuol pan fo angen.

Yn yr un sesiwn, dywedodd swyddogion y gallai cyfundrefn newydd ar ffurf PSR gydag agwedd 'cystadleuaeth yn olaf' gynyddu cyfleoedd i gydweithio a rhyddhau capasiti ac adnoddau i ganolbwyntio ar fonitro perfformiad a rheoli contractau.

Cwmpas cyfundrefn gaffael newydd y gwasanaeth iechyd

Mae'r diffyg eglurder ynghylch cwmpas y gwasanaethau y byddai unrhyw gyfundrefn newydd yng Nghymru yn gymwys iddynt wedi bod yn ffynhonnell ansicrwydd drwy gydol y gwaith craffu. Er enghraifft, mae rhanddeiliaid wedi bod yn ansicr a fyddai'r gyfundrefn newydd yn cwmpasu caffael o'r GIG i'r GIG (yng Nghymru neu'n drawsffiniol) neu wasanaethau gofal sylfaenol. Mae'r Gweinidog IGC **wedi datgan y canlynol:**

We're expecting that this will apply to clinical healthcare services that are defined under sections 1 and 3 of the National Health Service [Wales] Act 2006, and that covers, basically, prevention, treatment and diagnosis of illnesses. So, it's very, very broad.

Dywedodd cyrff iechyd wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, pe bai trefniadau yng Nghymru yn gyson â'r rhai a gynigiwyd ar gyfer Lloegr yn yr ymgynghoriad PSR, y byddai'n cwmpasu tua £550 miliwn y flwyddyn o weithgaredd caffael presennol. Er cyd-destun, mae tua £9 biliwn yn cael ei wario'n flynyddol ar wasanaethau craidd y GIG yng Nghymru.

Mae'r **cynigion PSR yn awgrymu** y gallai'r gyfundrefn gaffael newydd yn Lloegr gynnwys yr holl wasanaethau a gwmpesir o dan Ddeddf GIG 2006, gan gynnwys gofal sylfaenol a chymunedol a gwasanaethau ysbyty.

Mae adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn datgan y:

Bydd yn bwysig bod yr ymgynghoriad sydd wedi'i gynllunio ar gyfer hydref 2023 yn glir ynghylch bwriadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chwmpas unrhyw gyfundrefn newydd.

Cydbwysu hyblygrwydd a mesurau diogelu

Roedd rhanddeiliaid a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn glir ynghylch **y pwysigrwydd bod trefniadau caffael yn dryloyw, wedi'u strwythuro a'u llywodraethu'n briodol** heb ostyngiad yn ansawdd y gwasanaeth na gwerth am arian. Roedd yn hollbwysig osgoi unrhyw ganfyddiad gan y cyhoedd neu rhanddeiliaid nad yw'r broses ddyladwy'n cael ei dilyn.

Mae adran 3 o'r Bil yn mewnosod adran newydd 10A yn Neddf GIG 2006, gan gynnwys adran 10A(2) sy'n darparu bod yn rhaid i reoliadau gynnwys darpariaeth sy'n nodi'r camau sydd i'w cymryd wrth ddilyn proses dendro gystadleuol, ac adran 10A(3) sy'n nodi meini prawf ar gyfer unrhyw broses gaffael newydd. Nododd y Gweinidog IGC y gall y rheoliadau a'r canllawiau ar gyfer y gyfundrefn newydd nodi manylion ynghylch disgwyliadau o ran cynnwys y claf neu'r gymuned mewn penderfyniadau caffael. Ond roedd rhybudd hefyd gan y Gweinidog IGC a swyddogion am gynnwys meini prawf neu ofynion ychwanegol ar wyneb y Bil.

Caffael cymysg

Mae'r adran 10A(1) newydd i'w mewnosod yn Neddf GIG Cymru 2006 gan adran 3 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd a nwyddau neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny.

Barn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

- **Roedd angen egluro** mai dim ond nwyddau a/neu wasanaethau eraill sy'n 'sylweddol' neu'n 'uniongyrchol' gysylltiedig â'r gwasanaeth iechyd y gellir eu caffael dan gyfundrefn newydd.
- Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i asesu a fyddai diwygiadau caffael tebyg hefyd **yn fuddiol ar gyfer caffael gwasanaethau gofal cymdeithasol**.

7. Ymgysylltu ac ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol i lywio datblygiad Bil CGI. Mae'r Memorandwm yn esbonio y cynhaliwyd gwaith ymgysylltu anffurfiol â rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys arweinwyr cyllid, caffael a chomisiynu GIG Cymru yn haf 2022. Fodd bynnag, roedd profiad y rhanddeiliaid yn gymysg.

Yn gyffredinol, croesawodd y rhanddeiliaid ymrwymiad y Gweinidog IGC i ymgynghori yn hydref 2023 a galw i'r ymgynghoriad fynd i'r afael â sut y byddai'n effeithio ar brosesau comisiynu, yn gwella perthnasoedd rhwng comisiynwyr a darparwyr, a hwyluso arloesi. Roeddent hefyd yn awyddus i ddeall yr hyn a fyddai mewn rheoliadau a chanllawiau statudol, yn ogystal â manylion trefniadau newydd cyn eu gweithredu.

Barn y Pwyllgor

Croesawodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymrwymiad y Gweinidog i ymgynghoriad deuddeg wythnos, ond nododd na fyddai'n cynnwys rheoliadau na chanllawiau drafft. O ganlyniad, bydd yn bwysig i'r ymgynghoriad gynnwys digon o wybodaeth i alluogi rhanddeiliaid i ymateb yn ystyrlon.

Os cyflwynir cyfundrefn caffael gwasanaeth iechyd newydd yng ngwanwyn 2024, fel y mae'r Gweinidog IGC wedi nodi yw ei bwriad, bydd angen cyfleu'r gyfundrefn yn glir i awdurdodau perthnasol a rhanddeiliaid.

8. Cyd-destun polisi a deddfwriaethol ehangach

Bil fframwaith yw hwn, a bydd llawer o fanylion unrhyw gyfundrefn caffael gwasanaeth iechyd newydd yn cael eu nodi mewn rheoliadau a gyflwynir o dan yr adran 10A(1) newydd a chanllawiau statudol o dan yr adran 10A(4) newydd. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol pa mor bwysig ydyw bod Bil CGI yn cyd-fynd yn amlwg â'r cyd-destun polisi, deddfwriaethol a strategol ehangach.

Mae'r Memorandwm yn nodi y cynhaliwyd nifer o asesiadau effaith, gan gynnwys hawliau plant, cydraddoldeb, effaith ar iechyd, cyfiawnder, y Gymraeg, a bioamrywiaeth. Fodd bynnag, ni chyhoeddwyd y rhain.

Barn y Pwyllgor

Croesawodd **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol awgrym y Gweinidog IGC** y bydd asesiad effaith integredig yn cael ei lunio fel rhan o'r ymgynghoriad sydd wedi'i gynllunio ar gyfer hydref 2023.

Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor hefyd ei ofid am y diffyg asesiadau effaith cyhoeddedig a oedd ar gael i lywio gwaith craffu a galwodd hefyd am Femorandwm wedi'i ddiweddarau i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd y Bil a'r rheoliadau disgwylidig yn gyson â'r cyd-destun polisi a strategol ehangach.

Dylai'r Memorandwm ar gyfer y rheoliadau gynnwys asesiad a yw unrhyw un neu ragor o'r amcanion yn y rheoliadau yn cysylltu â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 gan eu bod yn ymwneud â chaffael nwyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd ac, os felly, a oes risg y gellid tanseilio effaith ymarferol yr amcanion.

9. Dadansoddiadau pwyllgorau eraill y Senedd

Trafododd y **Pwyllgor DCC** y Bil yn unol â'i gylch gorchwyl. Mae ei adroddiad yn codi sawl mater o bwys. Mae'n nodi'r canlynol:

... credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cyflwyno ei deddfwriaeth sylfaenol ei hun i ddiwygio'r prosesau sy'n sail i gaffael yng Nghymru.

...[mae'r] Bil yn Fil fframwaith arall a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn y Senedd hon. Credwn fod y dull hwn yn parhau i fod yn arwydd o duedd anffodus o Weinidogion Cymru yn cymryd pwerau gweithredol ychwanegol a bod hyn yn golygu llai o graffu gan y Senedd.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'n benodol y canlynol:

Er bod y Gweinidog yn nodi nad yw'r Ddeddf Marchnad Fewnol yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae gennym bryderon ynghylch effaith bosibl y Ddeddf ar effaith ymarferol deddfwriaeth a gaiff ei phasio gan y Senedd. Yn hyn o beth, nid yw'n glir o ymateb y Gweinidog a allai rheoliadau a wneir o dan y Bil mewn perthynas â chaffael nwyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal iechyd fod yn gyfyngedig o ran eu heffaith ymarferol os ydynt yn sbarduno'r egwyddor peidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau a amlinellir yn y Ddeddf Marchnad Fewnol.

Trafododd y **Pwyllgor Cyllid** oblygiadau ariannol y Bil. Mae ei adroddiad yn dod i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru wedi darparu ei "[h]amcangyfrif gorau... ar gyfer y gost o ddatblygu'r gyfundrefn a'i gweithrediad cychwynnol". Mae hyn yn cynnwys

£3.4 miliwn mewn costau trosiannol i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru dros gyfnod arfarnu tair blynedd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn datgan y canlynol hefyd:

Ni fydd goblygiadau ariannol llawn y gyfundrefn newydd yn hysbys hyd nes bod manylion y polisi wedi'u datblygu a'u cyflwyno mewn rheoliadau. Mae'n siomedig felly nad ydym yn gallu llunio barn ar sawl agwedd ar y goblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Bil oherwydd y diffyg gywbodaeth sydd ar gael.

... rydym yn disgwyl i Asesiad ar gyfer unrhyw reoliadau yn y dyfodol nodi'r costau llawn o ran goblygiadau ariannol cyfundrefn gaffael newydd y gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, mae'n siomedig nad oedd elfennau pwysig o oblygiadau ariannol y newid a alluogwyd gan y Bil hwn ar gael i graffu arnynt fel rhan o'r broses hon, ac na fydd unrhyw newidiadau a gyflwynir yn y dyfodol drwy reoliadau yn destun yr un graddau o waith craffu fel y rhai sydd wedi'u cynnwys ochr yn ochr â'r Bil ei hun.

Felly, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

...Llywodraeth Cymru yn darparu Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir o ganlyniad i Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) a bod digon o amser yn cael ei ddarparu i ganiatáu i'r Senedd ystyried unrhyw oblygiadau ariannol cysylltiedig a fydd yn codi.

10. Y camau nesaf

Bydd y Senedd yn trafod egwyddorion cyffredinol y Bil (dadl Cyfnod 1) ar 9 Mai 2023. Os bydd y Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol, bydd y Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2 pan fo'r Pwyllgor yn cynnig diwygiadau ac yn pleidleisio arnynt.

Mae amserlen y Pwyllgor Busnes ar gyfer y Bil yn pennu bod yn rhaid cwblhau Cyfnod 2 erbyn 9 Mehefin 2023.

Yna, bydd y Bil yn destun diwygiadau pellach gan yr holl Aelodau o'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn (Cyfnod 3) cyn pleidlais Cyfarfod Llawn derfynol ynghylch a ddylid pasio'r ddeddfwriaeth (Cyfnod 4).